Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Polisi Gwrth-dwyll

Mehefin 2024

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad Polisi | 2 |
| Diffiniadau o Dwyll, Llwgrwobrwyo ac Afreoleidd-dra Difrifol | 4 |
| Adrodd am Dwyll | 5 |
| Cyfrifoldebau | 6 |
| Casgliad | 9 |
| Atodiad 1 - Canllawiau i'r staff am roi gwybod am ddrwgdybio twyll | 10 |


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Datganiad Polisi

Un o gyfrifoldebau sylfaenol Cyngor Celfyddydau Cymru yw sicrhau defnydd cywir yr arian a'r adnoddau cyhoeddus a ymddiriedir iddo. Mae'r Polisi Gwrth-dwyll hwn yn gymwys i bob agwedd ar ein gwaith. Mae'n diffinio'r rheolaethau a'r gweithdrefnau cyffredinol i'n helpu i atal a dod o hyd i dwyll.

Hyrwyddwn ddiwylliant gwrth-dwyll ar draws pob agwedd ar ein gwaith a chymerwn safiad gweithredol a chadarn i ddiogelu yn erbyn cam-drin neu gamddefnyddio arian y cyhoedd.

Disgwylir y safonau uchaf o briodoldeb ac ymddygiad proffesiynol o bawb sy'n gysylltiedig yn agos â gwaith y Cyngor. Disgrifir y safonau hyn yng Nghod yr Arfer Orau a adolygir yn rheolaidd.

Mae gennym hefyd bolisi Chwythu'r Chwiban pe teimlai unrhyw aelod o'n staff fod eisiau codi materion.

Gofynnwn i aelodau o'n Cyngor a'n Pwyllgorau, i'n Hymgynghorwyr ac i'n staff wneud y canlynol:

- ymddwyn yn onest ac yn union ar bob adeg
- diogelu adnoddau
- cymryd camau priodol i atal, darganfod ac archwilio twyll ac adrodd amdano a gwneud yr un fath am lwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol

Ni dderbyn Cyngor Celfyddydau Cymru unrhyw lefel o dwyll neu lwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol. Archwilir yn drwyadl unrhyw achos felly a delir ag ef yn briodol.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau y lleiheir ar y cyfleoedd am dwyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol. Cymerwn felly agwedd weithredol at gynllunio a gweithredu ein systemau ariannol a gweinyddol i leihau'r perygl o ymddwyn yn afreolaidd neu'n anawdurdodedig.

Atega'r polisi hwn bolisïau Rheoli Perygl a Chwythu Chwiban Cyngor Celfyddydau Cymru a threfniadau Seiberddiogelwch. Cymeradwywyd y polisi ddiwethaf gan ein Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2024 a chaiff ei adolygu'n flynyddol wedyn.

## Diffiniadau o Dwyll, Llwgrwobrwyo ac Afreoleidd-dra Difrifol

Math o weithgarwch troseddol yw twyll a ddiffinnir fel a ganlyn:

*'camddefnyddio swydd/safle, neu gam-gynrychioli neu niweidio hawliau rhywun er elw personol'.*

Yn syml, mae twyll yn weithred o dwyllo gyda'r nod o ennill elw personol sy'n osgoi rhwymedigaeth neu sy'n achosi colled i barti arall.

Yr ymgais i dwyllo yw'r drosedd. Felly ystyrir yr ymgais i dwyllo yr un mor ddifrifol â chyflawni twyll. Gall trosedd gyffredinol twyll gynnwys:

- twyllo drwy gam-gynrychioli'n ymwybodol
- methu â datgelu gwybodaeth
- camddefnyddio swydd/safle
- ennill mantais annheg neu elwa o ganlyniad i wybodaeth fewnol am fusnes cwmni
- bod yn amhriodol wrth drafod arian neu adrodd amdano neu mewn trafodion ariannol neu wrth adrodd yn ariannol
- datgelu gwybodaeth gyfrinachol i bartïon allanol

O wneud hyn bernir bod trosedd wedi'i chyflawni wrth fod yr unigolyn yn fwriadol weithredu'n anonest i gael elw, yn ariannol neu fel arall, i'w hun neu i berson arall neu greu colled i rywun arall neu roi rhywun arall mewn perygl o wneud colled.

Ymestynna ein gwaith i ddarganfod ac atal twyll ar draws pob agwedd ar ein gweithgareddau. Cynnwys hyn:

- recriwtio
- adnoddau dynol
- TGCh
- Caffael
- Rheoli grantiau

- Trafod arian
- Defnyddio cardiau credyd
- Teithio a threuliau
- Camddefnyddio offer y cwmni
- Camddefnyddio gwybodaeth neu ddata’r cwmni

Daeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 i rym ar 1 Gorffennaf 2011. Daw yn lle deddfwriaeth flaenorol gyda chynllun crynhoi troseddau llwgrwobrwyo blaenorol a chyda'r nod o ymdrin â llwgrwobrwyo ym Mhrydain a thramor. Dyma’r troseddau:

- llwgrwobrwyo person arall (i berfformio'n amhriodol swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol neu wobrwyo person am berfformio'n amhriodol y fath swyddogaeth neu weithgaredd)
- cael eich llwgrwobrwyo (gan gynnwys derbyn llwgrwobrwyon)
- llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus estron (i gael neu gadw busnes neu fantais wrth gynnal busnes)
- methu ag atal llwgrwobrwyo (gellid erlyn sefydliad pe tai gweithiwr neu unigolyn sy’n gysylltiedig ag ef yn llwgrwobrwyo person arall i ennill mantais neu gael/cadw busnes i'r sefydliad hwnnw)

Gallai afreoleidd-dra difrifol fod yn weithred, neu fethiant i weithredu, a chanlyniad hynny yw colli neu beryglu asedau sefydliad lle nad yw'r weithred neu'r methiant i weithredu, ynddynt eu hunain, yn weithredoedd o dwyll. Cynnwys asedau sefydliad arian, gwybodaeth/data, dogfennau neu offer.

Gall twyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol ddigwydd yn fewnol neu'n allanol, gan y staff, ymgynghorwyr allanol, cyflenwyr, contractwyr neu ymgeiswyr grant - a hynny'n unigol neu gydag eraill.

## Adrodd am Dwyll

Dylai pob aelod o'r staff fod yn effro i'r posibilrwydd y gall digwyddiadau neu drafodion anarferol fod yn symptomau o dwyll neu ymgais i dwyllo, er enghraifft gwyngalchu arian, ceisio arian drwy gam-gynrychioli ceisiadau newydd neu weithgarwch drwgdybus gan sefydliad neu unigolyn a ariannwn.

Gellid tynnu sylw at dwyll hefyd o ganlyniad i wiriadau penodol y rheolwyr neu gall trydydd parti dynnu sylw'r rheolwyr ato. Hefyd, o bryd i'w gilydd, daw afreoleidd-dra i'r golwg drwy adolygiadau archwilio. Pe drwgdybia aelod o'r staff y digwydd afreoleidd-dra yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, dylai'r aelod hwnnw gyfeirio at y polisi hwn am arweiniad a dilyn yn ddisymwth y gweithdrefnau a ddisgrifir yn ein Polisi Chwythu'r Chwiban.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru arweiniad rheoli twyll ar waith sy'n nodi'r meysydd y byddai'n bosibl inni ddioddef twyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol. Amlinella'r arweiniad ein gweithdrefnau o ran adrodd am enghreifftiau o dwyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol a'u harchwilio. Esbonia'r mesurau sydd ar waith hefyd i leihau'r perygl i'r rhain ddigwydd.

Ymdrinnir â phob mater yn gyfrinachol. Archwilir unrhyw rai a godir ac a archwilir drwy Bolisi Chwythu'r Chwiban yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Amddiffynna hon fuddiannau personol dilys y rhai a gyfyd fater ac unrhyw archwiliad dilynol.

Ymgymerir ag archwiliadau egnïol a phrydlon ymhob achos o wir dwyll neu dwyll a ddrwgdybir, a adroddir neu a ddarganfyddir. Lle bo angen, rhoddir gwybod i'r Llywodraeth, y rheoleiddwyr a'r Heddlu os dengys archwiliad fod angen gwneud hyn.

## Cyfrifoldebau

### Swyddog Cyfrifyddu

Y Prif Weithredwr sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Cyngor Celfyddydau Cymru. Cynnwys y swyddogaeth gyfrifoldeb personol am sefydlu a chynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano ac am gadw cyfrifon cywir.

Nod y system o reolaeth fewnol a sicrwydd corfforaethol yw ymateb i holl ystod y peryglon y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru eu hwynebu, a'u rheoli. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o nodi'r prif beryglon, gwerthuso natur a maint y peryglon hynny a'u rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a rheoli perygl twyll.

Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldeb am sicrhau rhoi cyngor priodol i'r Cyngor ar bob un o'r materion hyn. Mae cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn foddhaol yn sylfaenol i swyddogaeth y Prif Weithredwr.

### Aelodau o'r Cyngor, y Pwyllgorau a'r staff a Chydweithwyr

Mae gan bob aelod o'r Cyngor, y Pwyllgorau a'r staff a Chydweithwyr ddyletswydd i ddiogelu arian y cyhoedd ac asedau Cyngor y Celfyddydau. Felly mae pawb yn gyfrifol am y canlynol:

- ymddwyn yn unol â Chod Arfer Orau Cyngor Celfyddydau Cymru gan gynnwys parthed datgan a gwrthdaro buddiannau

- sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau Cyngor Celfyddydau Cymru o ran twyll, llwgrwobrwyo a rheoli perygl cyffredinol

- ymddwyn â phriodoldeb wrth ddefnyddio adnoddau swyddogol a thrafod a defnyddio arian y cyhoedd bob amser. Mae hyn yn cynnwys systemau arian a/neu daliadau, cymeradwyo grantiau a rheoli ac ymdrin â chyflenwyr a chontractwyr

- bod yn wyliadwrus o ran y posibilrwydd y gallai digwyddiadau neu drafodion anarferol fod yn arwyddion o dwyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol a rhybuddio eu rheolwr llinell neu berson priodol lle credant fod cyfle i'r peryglon hyn ddigwydd

Os drwgdybia unrhyw un fod twyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol wedi digwydd neu fod ymgais i gyflawni un o'r rhain wedi bod neu os yw'n debygol y bydd y fath ymgais neu weithred, cyfrifoldeb pawb yw adrodd manylion amdano ar unwaith.

Yn ogystal â hyn, mae gan y canlynol ddyletswyddau ychwanegol penodol:

### Y Cyngor

Y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal rheolaethau effeithiol i atal twyll a rhwystro camymddwyn ac ymgymer ag archwiliadau egnïol a phrydlon os digwydd y rhain neu fod drwgdybiaeth bod yr un ohonynt wedi digwydd.

Cymer y Cyngor gamau gweithredu cyfreithiol a/neu ddisgyblu yn erbyn y twyllwyr neu'r rhai a gais gyflawni twyll. Cymer hefyd gamau gweithredu disgyblu angenrheidiol yn erbyn rheolwyr llinell lle cyfrannodd methiannau rheoli at gyflawni twyll ac yn erbyn yr aelodau unigol o'r staff lle roeddynt yn ymwneud â hyn.

Amrywia amgylchiadau pob twyll unigol a gellid eu cyflawni'n fewnol gan y staff neu'n allanol e.e. yng ngweithgareddau unigolyn neu sefydliad a ariannwn neu drwy geisiadau ffug. Serch hynny mae'n bwysig i bob enghraifft o afreoleidd-dra neu ddrwgdybio twyll neu ymddygiad annerbyniol gael ei harchwilio'n egnïol a phrydlon ac y cymerir camau gweithredu priodol. Gall y camau gweithredu hyn gynnwys gwneud newidiadau angenrheidiol i systemau neu weithdrefnau i sicrhau na ddigwydd twyll tebyg eto.

Ystyria Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor dwyll yn ddifrifol iawn a sicrhânt sefydlu a chynnal systemau i gofnodi a monitro wedyn bob achos o dwyll a ddaw i'r fei.

## Cyfarwyddwyr/ y Bwrdd Rheoli /Rheolwyr

Cyfrifoldeb yr aelodau uchod o'r staff yw sicrhau bod system o reolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys rheoli perygl ac ymwybyddiaeth ohono a llywodraethu corfforaethol, yn bodoli yn eu meysydd cyfrifoldeb a bod y rheolaethau'n gweithredu'n effeithiol. Ar ysgwyddau'r uwch staff yn bennaf felly y syrth y cyfrifoldeb am atal a darganfod twyll.

Mae ar yr holl uwch staff angen asesu'r mathau o berygl sydd yn y gweithrediadau y maent yn gyfrifol amdanynt; i adolygu a phrofi'n rheolaidd y systemau rheolaeth y maent yn gyfrifol amdanynt a sicrhau y cydymffurfir â'r rheolaethau ac ymfodloni bob amser fod eu systemau'n parhau i weithredu'n effeithiol.

Wrth gynllunio unrhyw system newydd, rhaid ymgymryd ag asesiad perygl cynhwysfawr gan roi ystyriaeth i gynnwys amddiffynfeydd yn erbyn twyll mewnol ac allanol. Yn ddarostyngedig i'r meysydd gwaith dan ystyriaeth, mae'r canlynol ar gael i gynnig cyngor a chymorth am reoli perygl a materion rheolaeth fel y bo angen:

- ein harchwilwyr mewnol
- y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes
- Cyfarwyddwr y Celfyddydau
- y Pennaeth Datblygu Busnes
- y Pennaeth Cyllid a Chyfrifyddu
- Pennaeth TGCh ac Isadeiledd
- y Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio

## Archwiliad Allanol

Dyma'r broses statudol lle gwirir a dilysir yn annibynnol bob blwyddyn brosesau, gweithdrefnau, llywodraethu a gwario'r Cyngor. Rhoddir tystiolaeth am y gwaith hwn yng nghyfrifon blynyddol cyhoeddedig y Cyngor drwy gyfrwng Tystysgrif Archwilio sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- eu gwirionedd a'u tegwch gan roi sicrwydd eu bod yn:
    - rhydd o gam-ddweud sylweddol un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad
    - cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion eraill sy'n cymwys

    - cydymffurfio â’r holl ofynion perthnasol o ran cyflwyno a datgelu’r cyfrifon

- a rheoleidd-dra’r gwariant a’r incwm

Archwiliad mewnol

Nod yr archwiliad mewnol, drwy’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl, yw darparu barn annibynnol a gwrthrychol i’r Cyngor a’r Swyddog Cyfrifyddu ar reoli perygl. Cynnwys hyn asesu rheolaeth a llywodraethu a’u heffeithiolrwydd o ran cyflawni ein hamcanion corfforaethol. Ffurfia'r farn hon ran o fframwaith y sicrwydd a gaiff y Cyngor a defnyddir y farn honno i borthi'r Datganiad blynyddol am Reolaeth Fewnol a ymddengys yn y cyfrifon statudol. Mae gan yr Archwiliad Mewnol hefyd swyddogaeth ymgynghori wrthrychol ac annibynnol i gynorthwyo rheolwyr llinell i wella rheoli perygl, llywodraethu a rheolaeth.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl

Myn Llywodraeth Cymru fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn sefydlu Pwyllgor Archwilio er mwyn cynghori, a darparu sicrwydd, ar ddigonolrwydd trefniadau'r Cyngor am archwiliad mewnol, yr archwiliad allanol a'r llywodraethu corfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cefnogi'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethu, rheoli perygl, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Yn benodol, mae'n gyfrifol am adolygu systemau'r rheolaeth fewnol ym meysydd rheoli perygl, rheolaeth, llywodraethu, ariannol a gweithrediadau eraill y Cyngor er mwyn hybu safonau uchaf priodoldeb wrth drafod arian y cyhoedd ac annog atebolrwydd cywir wrth ddefnyddio'r arian hwnnw.

Casgliad

Amrywia amgylchiadau a math pob twyll. Serch hynny, ni waeth am y math, y raddfa neu'r amgylchiadau, cymer Cyngor y Celfyddydau dwyll o ddifrif. Rydym yn ymroddedig iawn i leihau yn ein sefydliad y posibilrwydd o dwyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol ac archwiliwn yn drwyadl bob drwgdybiaeth a adroddir.

Gweithredwn yn gadarn ymhob achos lle y ceid prawf i dwyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra difrifol ddigwydd a lle bo angen rhoddwn wybod i’r heddlu am y rhain.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn aelod o’r Fenter Dwyll Genedlaethol.

# Atodiad 1 - Canllawiau i'r staff am roi gwybod am ddrwgdybio twyll

## Cyn codi'r mater

Pethau i'w gwneud

- Aros yn ddigynnwrf
- Ystyried a diffinio'r mater drwy asesu'r **ffeithiau** a gasglwyd
    - Pam mae'r mater wedi codi yn eich meddwl?
    - Beth sydd ynghlwm wrth y mater (twyll, camymddwyn neu weithgarwch anghyson arall)?
    - Pwy sydd, yn eich tyb, yn ymwneud â hyn?
    - Pryd y gallai fod wedi digwydd? A allai fod yn digwydd o hyd?
    - A oes unrhyw dystiolaeth o gamwedd?

Pethau i beidio â'i gwneud

- Anghofio y gallai fod esboniad da a diniwed
- Mynd yn dditectif
- Trafod y mater gydag unrhyw un arall heblaw am y rhai a nodir yn ein polisi a'n gweithdrefnau
- Defnyddio'r gweithdrefnau i ddial ar rywun. Cefnoga'r Cyngor i'r carn adrodd yn gyfrifol am weithgarwch amheus ond disgybla unrhyw un a wna ddatgeliad maleisus.

## Codi mater

Ar ôl ystyried yr uchod, os erys y mater heb ei ddatrys, siaradwch â:

- Eich rheolwr llinell
- Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes
- Aelod o'r Uwch Tîm Gweithredol

Peidiwch ag archwilio'r mater yn bersonol neu gymryd arnoch eich hun i siarad ag un rhywun.